Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 8fed Fehefin 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones,, Neil Pringle, Mari E M Mathews, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Catherine Williams.

Datgan diddordeb, Dim datganiad.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd
Penderfynwyd yn unfrydol ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd a Gwawr Jones yn Is Gadeirydd am y flwyddyn olynol

Nodwyd ymddiswyddiad Dyfed Jones Rhoslan, Pentre' Du . Y clerc i wneud trefniadau i lenwi'r bwlch

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 4ydd Fai 2021

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair
Nodwyd bydd y Cyngor Cymuned yn cyfarfod gyda CADW, pan i'r cyfnod clo ddod i ben.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan/ Darparu Gwasanaethau
Eglurodd y clerc ei fod wedi cysylltu gyda chwmni trydan Jones a Whitehead ynglŷn darparu trydan yn y cae. Yn hytrach na darparu cyflenwad parhaol, fod Jones/Whitehead yn cynghori trefnu trydan yn y cae fel bo angen.

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Pont y Mwynwyr
Deallwyd fod y Cyngor Sir yn anelu i gael pont newydd yn ei lle erbyn mis Medi.

[1.5] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du
Nodwyd bod y mater wedi ei ohirio o ganlyniad coronafeirws.

[1.6] Siop Climber a Rambler
Dywedodd y Cyng E Roberts nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan y Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r llechi rhydd ar y to, a bod yr asiant sydd yn ceisio gwerthu'r adeilad yn ceisio darganfod pwy sydd â chyfrifoldeb am gynhaliaeth yr adeilad

[1.7] Atgyweirio'r Neuadd Goffa
Eglurodd y clerc y byddai ynghyd a'r Cadeirydd yn cwrdd swyddogion o'r Cyngor Sir i drafod materion atgyweirio

[1.8] Gwasanaeth Sgip
Nodwyd y byddai gwasanaeth sgip ar gael ym mhen pellaf Fordd yr Orsaf ar yr 30ain Fehefin ac ar y triongl gwair ym Mhentre' Du ar yr 20fed Orffennaf

[1.9] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy
Y clerc i gysylltu gyda'r Gymdeithas Tai i geisio copi o bolisi'r gymdeithas ar gyfer gosod eiddo.

[2.] Caffi 'r Rheilffordd Fach
Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Adran Amgylchedd y Cyngor Sir. Y clerc i gysylltu mhellach gyda swyddog'r Iechyd ac Amgylchedd Bethan Lloyd.

[2.1] Materion Parcio Bro Gethin
Eglurodd y clerc iddo ynghyd a Gwawr Jones ac Elisabeth Roberts gwrdd gyda swyddogion o Gymdeithas Cartrefi Conwy ynglŷn â thrafferthion parcio ar yr ystâd. Penderfynwyd aros nes bydd argymhellion y Gymdeithas Tai wedi eu derbyn.

[2.2] Ymgynghoriad Meysydd Parcio APCE
Nodwyd bod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu trefnu webinar yn y dyfodol agos.

[2.3] Arwyddion Lleol
Deallwyd bod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu trefnu arwyddion newydd yn y pentre'. Fel rhan o'r gwaith mae bwriad i osod giât newydd yn nghwaelod Cae Llan, mae'r gwaith yn amodol i ganiatâd cynllunio.

Y Brif Agenda

[2.4] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1af hyd i 31ain Fai 2021
[b] Nodwyd bod y Rhaeadr Ewynnol wedi ail agor ar ôl y cyfnod clo.

[2.5] Aelod Newydd
Penderfynwyd gwahodd Mrs Bethan Thomas yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned

[2.6] Cae Llan
Deallwyd bod rhai meinciau yng Nghae Llan mewn cyflwr gwael a bod y biniau angen ei glanhau. Y clerc i drefnu archebu meinciau newydd ayb.

Cadeirydd______________________________